# DATGANIAD O'R RHESYMAU

## MESUR ARFAETHEDIG I ARAFU TRAFFIG YN HEOL COPPERWORKS, LLANELLI

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu cyflwyno mesur arafu traffig newydd ar ffurf twmpath arafu estynedig ger Rhif 7 Heol Copperworks, Llanelli, gyda'r nod o leihau cyflymder cerbydau ger mannau croesi heb eu rheoli i gerddwyr sydd wedi'u cynllunio ac sy'n bodoli eisoes, ac yng nghyffiniau amwynderau cyhoeddus.

Mae'r groesfan wedi'i symud yn dilyn sylwadau gan Banel Hygyrchedd Trafnidiaeth Cymru, a ofynnodd am i'r mesur arafu traffig newydd gael ei gosod ychydig ymhellach yn ôl gan alinio'n uniongyrchol â'r droedffordd ar ochr ogleddol Heol Copperworks, ger y gyffordd â Heol yr Orsaf.